Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 939 (Cy. 163)

# ANIFEILIAID, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Rheolaethau Mewnforio) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwahardd mewnforio i Gymru gynhyrchion o anifeiliaid sy'n dueddol i glefyd (a ddiffinnir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn) y bwriedir iddynt gael eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol. Mae'r gwaharddiad yn gymwys i fewnforion sy'n cyrraedd o diriogaethau sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig. Mae'r tiriogaethau hyn yn cynnwys holl wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las a'r Swistir. Mae'r gwaharddiad a osodir gan y Gorchymyn hwn yn angenrheidiol at ddibenion atal cyflwyno neu ledaenu clefyd anifeiliaid, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau, clwy Affricanaidd y moch, clefyd y croen talpiog a peste des petits ruminants. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhychwantu Cymru a Lloegr ond nid yw'n gymwys ond o ran Cymru.

Mae erthygl 3 yn gosod y gwaharddiad ar fewnforio cynhyrchion o anifeiliaid sy'n dueddol i glefyd y bwriedir iddynt gael eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol.

Mae erthygl 4 yn rhestru'r cynhyrchion sydd wedi eu hesemptio rhag y gwaharddiad a osodir gan erthygl 3, a'r amodau y mae rhaid i'r cynhyrchion hyn eu bodloni i gael eu hesemptio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 939 (Cy. 163)

# ANIFEILIAID, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Rheolaethau Mewnforio) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *31 Gorffennaf 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *4 Awst 2025*

*Yn dod i rym* *8 Awst 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

(**1**) 1981 p. 22 ("Deddf 1981"). Diwygiwyd adran 10 gan O.S. 1990/2371 ac 1993/1813. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, rhychwant, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Rheolaethau Mewnforio) (Cymru) 2025.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru;

(c) yn dod i rym ar 8 Awst 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifail sy'n dueddol i glefyd" ("*susceptible animal*") yw buwch, tarw, dafad, gafr, carw, camel, lama, alpaca, gwanaco, ficwnia, neu anifail cnoi cil arall, mochyn neu eliffant;

ystyr "cynhyrchion deilliedig" ("*derived products*") yw cynhyrchion a geir drwy un neu ragor o driniaethau, trawsnewidiadau neu gamau wrth brosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid;

ystyr "cynhyrchion o anifail sy'n dueddol i glefyd" ("*products from a susceptible animal*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol, sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gorff anifail sy'n dueddol i glefyd, neu sy'n deillio o anifail sy'n dueddol i glefyd—

(a) cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid;

(b) sgil-gynhyrchion anifeiliaid, neu

(c) cynhyrchion deilliedig;

ystyr "cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid" ("products of animal origin") yw unrhyw fwyd sy'n dod o anifeiliaid, gan gynnwys cynnyrch cig;

ystyr "cynnyrch cig" ("meat product") yw unrhyw fwyd a wneir o gig neu waed anifail;

ystyr "mochyn" ("pig") yw unrhyw anifail o deulu'r Suidae;

ystyr "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" ("animal by-products") yw cyrff cyfan anifeiliaid neu rannau ohonynt, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a geir o anifeiliaid, na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl, ac eithrio cynhyrchion cenhedlol;

ystyr "tiriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig" ("territory subject to special transitional import arrangements") yw—

(a) un o wladwriaethau'r AEE;

(b) Ynysoedd Ffaro;

(c) Yr Ynys Las;

(d) Y Swistir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Gwahardd mewnforion personol o gynhyrchion o anifeiliaid sy'n dueddol i glefyd**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthygl 4, ni chaiff unrhyw berson fewnforio cynhyrchion o anifail sy'n dueddol i glefyd i Gymru o diriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig pan fwriedir i'r cynnyrch hwnnw gael ei fwyta neu ei ddefnyddio'n bersonol.

**Esemptiadau rhag y gwaharddiad yn erthygl 3**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys i—

(a) llaeth powdr babanod, bwyd babanod neu fwydydd arbennig sydd eu hangen am resymau meddygol, sydd—

(i) yn gynnyrch nad oes angen ei reweiddio cyn ei agor;

(ii) yn gynnyrch brand perchnogol sydd wedi ei becynnu i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol, a

(iii) yn gynnyrch sydd wedi ei gynnwys mewn pecynwaith heb ei dorri oni bai ei fod yn y broses o gael ei fwyta neu ei yfed ar adeg y mewnforio;

(b) bwyd anifeiliaid anwes sydd ei angen am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd, sydd—

(i) wedi ei fwriadu ar gyfer yr anifail anwes sy'n mynd gyda'r teithiwr ar adeg teithio;

(ii) yn silff-sefydlog ar dymheredd amgylchynol;

(iii) yn gynnyrch brand perchnogol sydd wedi ei becynnu i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol, a

(iv) wedi ei gynnwys mewn pecynwaith heb ei dorri oni bai ei fod yn y broses o gael ei fwyta ar adeg y mewnforio;

(c) bara, cacennau, bisgedi, wafflau, wafferi, rhysgiau, bara wedi ei dostio neu gynnyrch tebyg wedi ei dostio sy'n cynnwys llai nag 20% o gynhyrchion llaeth wedi eu prosesu, ac sydd—

(i) yn silff-sefydlog ar dymheredd amgylchynol neu sydd yn amlwg, ar y cam gweithgynhyrchu, wedi bod drwy broses goginio neu drin â gwres gyflawn drwy'r cyfan o'r sylwedd, fel bod unrhyw gynnyrch amrwd wedi ei annatureiddio;

(ii) yn gynnyrch i'w fwyta gan bobl, a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iii) yn gynnyrch sydd wedi ei becynnu'n ddiogel neu wedi ei selio mewn cynwysyddion glân;

(d) siocled neu felysion (gan gynnwys losin) sy'n cynnwys llai na 50% o gynhyrchion llaeth wedi eu prosesu, os yw'r cynnyrch—

(i) yn silff-sefydlog ar dymheredd amgylchynol neu sydd, ar y cam gweithgynhyrchu, wedi bod drwy broses goginio neu drin â gwres gyflawn drwy'r cyfan o'r sylwedd, fel bod unrhyw gynnyrch amrwd wedi ei annatureiddio;

(ii) i'w fwyta gan bobl, a

(iii) wedi ei becynnu'n ddiogel neu wedi ei selio mewn cynwysyddion glân;

(e) atchwanegiadau bwyd wedi eu pecynnu ar gyfer y defnyddiwr terfynol sy'n cynnwys cyfanswm o lai nag 20% o gynhyrchion anifeiliaid wedi eu prosesu (gan gynnwys glwcosamin neu gondroïtin) heb gynnwys cynhyrchion cig, ac

(f) pasta neu nwdls sy'n cynnwys llai na 50% o gynhyrchion llaeth wedi eu prosesu, ac eithrio pasta a nwdls wedi eu cymysgu neu eu llenwi â chynnyrch cig, sydd—

(i) yn silff-sefydlog ar dymheredd amgylchynol neu sydd, ar y cam gweithgynhyrchu, wedi bod drwy broses goginio neu drin â gwres gyflawn drwy'r cyfan o'r sylwedd, fel bod unrhyw gynnyrch amrwd wedi ei annatureiddio;

(ii) yn gynnyrch i'w fwyta gan bobl, a

(iii) yn gynnyrch sydd wedi ei becynnu'n ddiogel neu wedi ei selio mewn cynwysyddion glân.

(2) Nid yw'r esemptiadau ym mharagraff 1(a) a (b) yn gymwys pan fo person yn mewnforio mwy na chyfanswm o 2kg o'r cynhyrchion hynny.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
31 Gorffennaf 2025